## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar ddydd Mercher 28ain Medi 2005 am 09.30a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: S. Thomas (Cadeirydd), J.R. Bartley, R.E. Barton, J. Butterfield, J. Chamberlain-Jones, M.Ll. Davies, S.A. Davies, G.C. Evans, H.H. Evans, S. Frobisher, I.M. German, M.A. German, D. Hannam, K.N. Hawkins, T.K. Hodgson, T.R. Hughes, N.Hugh-Jones, D. Jones, H. Jones, M.M. Jones (sylwedydd), N.P. Roberts, G.O. Rowlands (sylwedydd), D.A.J. Thomas, C.H. Williams, R.Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Clerc y Sir, Rheolwr Rheoli Datblygiad, Arweinydd Tîm (Prif Gymwysiadau), Uwch Swyddog Cefnogi (G. Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd).

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr: P.W. Owen, J. Thompson-Hill, J.M.Davies, E.R.Jones, M.A.Webster, G.M. Kensler a Ms J.Kennedy (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol).

### 429 MATERION BRYS

Dim.

### 430 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) Cadarnhau'r argymhellion a wnaed gan y Swyddogion, fel y cynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr, a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn ddarostyngedig i'r amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir nawr:*

(i) Caniatâd

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 01/2005/0764/PO | Datblygu 0.15ha o dir trwy godi 19 fflat, adeiladu mynedfeydd newydd i gerbydau/cerddwyr a gwaith cysylltiedig (cais amlinell)<br>**Cyn Autoworld, Lenten Pool Dinbych**<br>CANIATAWYD yn amodol ar Amodau Newydd/Ychwanegol:<br>4. (b)(i)"….a dylid gwneud tâl cyn dechrau ar y datblygiad".<br>17. Cyn cychwyn y datblygiad, dylid cyflwyno manylion lefelau gorffenedig y lloriau yn y tai a ganiateir trwy hyn, ynghyd â lefelau mynediad a pharcio'r safle, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Dylid ymgymryd â'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd. |

Rheswm: Lleihau perygl llifogydd ac er budd mwynderau preswyl a gweledol.

02/2005/0892/PF

Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol oddi wrth: Derek Jones, 4 Bryn Glas, Graigfechan a'r Swyddog Mynediad.
Disgrifiad: Dymchwel yr holl adeiladau presennol a'u disodli gyda chanolfan newydd ar gyfer celfyddydau cymwysedig, gweithdai, orielau, lle adwerthu, swyddfeydd, bwyty, lle addysg a chanolfan gwybodaeth i dwristiaid, adeiladu mynedfa newydd i gerddwyr a cherbydau, newidiadau i'r maes parcio presennol a gwella'r tirweddu presennol.
**Canolfan Grefftau Rhuthun, Ffordd y Parc, Rhuthun**
CANIATAWYD yn amodol ar Amodau Newydd/Ychwanegol:
2. Ychwanegu "Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, dim wal allanol neu ddeunydd to ac ati…"
Amod 11. Cyn cychwyn ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn, dylid cyflwyno cynllun yn nodi'r ddarpariaeth i'w gwneud ar gyfer mynediad pobl anabl i'r adeilad, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylid gweithredu'r cynllun a gytunwyd cyn dechrau defnyddio'r datblygiad a ganiateir trwy hyn.
Nodiadau ychwanegol i'r Ymgeisydd
Wrth drafod y cais cynllunio ym Mhwyllgor Cynllunio'r Cyngor, mynegodd yr aelodau bryderon ynglŷn â defnyddio deunydd to sinc. Mae angen gwybodaeth bellach o ran ystyried defnyddio'r math hwn o ddeunydd pan gyflwynir manylion i gyflawni amod 2 o'r caniatâd cynllunio.
Mewn perthynas ag Amod Rhif 11, mae Swyddog Mynediad y Cyngor wedi gofyn bod y project yn ymgorffori safonau dylunio cynhwysol a bod archwiliad mynediad annibynnol yn cael ei gyflwyno.
Nodyn: Gofynnir i'r Aelodau gyfeirio bod y manylion mewn perthynas ag Amod 2 (yn enwedig y deunydd to) i'r Pwyllgor Cynllunio unwaith y cânt eu cyflwyno.

03/2005/0702/PF

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Llangollen a Chynllun Lleoliad Diwygiedig (dosbarthwyd)
Disgrifiad: Amrywio Amod 9 caniatâd cynllunio amlinell ar gyfer ailddatblygu tir trwy adeilad 20 fflat (Rhif Cod. 03/2004/0720/PO), i ganiatáu ar gyfer trefniadau amgen derbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer darparu 4 uned tai fforddiadwy yn Llangollen
**Bryn Derwen Abbey Road Llangollen**
(Ymatalodd y Cynghorydd R.E. Barton rhag pleidleisio)
CANIATAWYD yn amodol ar Amod diwygiedig 1
1. Ar ôl (e)
<u>neu</u>
Ddarpariaeth ar gyfer talu swm cymudedig i ganiatáu darpariaeth gyfatebol yn ardal Llangollen, ynghyd â manylion amseriad y tâl a'r cyfnod yn ystod yr hwn y bydd yr arian yn cael ei wario.

24/2005/0593/PF

**Siaradwyr yn erbyn: M Adams, Pencraig, Bontuchel**
**Siaradwyr o blaid: Clive Jones (Gwilym Hughes Solicitors)**

Ar ôl ystyried nodiadau ymweliad safle ar 16/09/2005
Disgrifiad: Trosi hen adeiladau amaethyddol i ffurfio 5 tŷ annedd a gwaith cysylltiedig.
**Adeiladau allanol ym Mhant Glas Uchaf Bontuchel Rhuthun**
CANIATAWYD yn amodol ar Amodau Diwygiedig/Ychwanegol
13. "…a dylid gweithredu'r manylion cymeradwy yn llawn cyn cychwyn ar unrhyw ddatblygiad ar y safle".
18. Dylid tynnu ymaith holl adeiladau amaethyddol a nodir i'w tynnu ymaith ar y cynllun lleoliad sy'n ffurfio rhan o'r caniatâd hwn (Darlun rhif. 2007/4) yn llwyr o'r safle cyn i neb fyw yn unrhyw un o'r tai annedd a ganiateir trwy hyn.
Rheswm: Er budd mwynderau preswyl a gweledol.

42/2005/0842/PF

**Siaradwyr yn erbyn: Ann Owens**
(Ar ôl ystyried nodiadau'r Ymweliad Safle a gynhaliwyd ar 16 Medi 2005)
Disgrifiad: Adeiladu estyniad gyda tho ar ongl dros fodurdy presennol
**43 Parc Gwelfor Dyserth Y Rhyl**
CANIATAWYD

44/2005/0771/PF

**Siaradwyr o blaid Mike Ralph Ymgynghorydd Cynllunio ar gyfer yr Ymgeisydd**
Cyn belled â na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach yn codi mater cynllunio nad yw eisoes wedi ei drin yn yr adroddiad erbyn 3ydd Hydref 2005.
Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol oddi wrth: Dwr Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd ynghyd â gwybodaeth bellach yn ymwneud â risg llifogydd, draeniad a dyluniad.
Disgrifiad: Adeiladu tafarn/bwyty, gwesty, uned bwyd cyflym gyrru trwodd, uned adwerthu difwyd a mynediad cysylltiedig, maes parcio a thirweddu
**(Triongl Rhuddlan) Tir yn Marsh Road Rhuddlan Y Rhyl**
CANIATAWYD yn amodol ar:
1. Ymateb gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar risgiau llifogydd.
2. newid i ddyluniad/deunyddiau a/neu ddefnyddio amodau i warchod rhai elfennau.
3. Peidio â derbyn unrhyw sylwadau pellach yn codi materion a drafodwyd yn yr adroddiad erbyn 3ydd Hydref 2005.
Amod Diwygiedig:
18. Ychwanegu "Dylai'r cynllun ar gyfer draenio dŵr wyneb ac aflan gynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw wanhad dwr wyneb a gwelliannau oddi ar y safle i isadeiledd carthffosiaeth aflan a ystyrir eu bod yn angenrheidiol ac allyriant draeniad dwr wyneb.

44/2005/0999/PS

Disgrifiad: Amrywio amodau 2 a 3 caniatâd cynllunio rhif cod. 44/2000/1013/PO i ganiatáu cyflwyno materion ar gadw erbyn 27 Rhagfyr 2005 a chychwyn datblygu erbyn 27 Rhagfyr 2006
**Cyn Thomas Motor Mart Marsh Road Rhuddlan Y Rhyl**
CANIATAWYD yn amodol ar: Amodau diwygiedig 2 a 3

Amodau diwygiedig:
2. Dylid gwneud cais i gymeradwyo'r materion cadw i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn 27ain Rhagfyr 2005.
3. Dylid cychwyn ar y datblygiad a ganiateir yma cyn 27ain Rhagfyr 2006.

45/2005/0707/PF

Disgrifiad: newid defnydd tir i leoli cerbyd profi symudol am gyfnod hyd at 5 mlynedd gyda 12 ymweliad y mis
**Canolfan Haul a Theatr y Pafiliwn Rhodfa'r dwyrain, Y Rhyl**
(Pleidleisiodd y Cynghorwyr I.M. German ac M.A. German yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio)
CANIATAWYD

(ii) **Gwrthod**

03/2005/0927/PO

Ar ôl ystyried cynllun lleoliad diwygiedig (dosbarthwyd) a llythyrau ychwanegol oddi wrth: Gyngor Tref Llangollen a Phennaeth Cludiant ac Isadeiledd
Disgrifiad: Datblygu 0.03ha o dir trwy adeiladu tŷ annedd (cais amlinell)
**Gardd i Ael Y Bryn Birch Hill Llangollen**
GWRTHODWYD
Rheswm ychwanegol dros wrthod:
2. Dynesir at y safle o ffordd y sir ar ffordd gul anorffenedig, a ystyrir yn is-safonol o ran lled y gyffordd, cynllun, ac aliniad, i wasanaethu fel modd mynediad ar gyfer datblygiad preswyl pellach. Felly, mae'r cynnig yn groes i faen prawf (iv) Polisi GEN 6 Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych.

15/2005/0812/PC

Disgrifiad: adeiladu estyniad tŷ gwydr ar ochr tŷ annedd (cais ôl-weithredol).
**Armon Cottage Bryn Alyn Llanferres Yr Wyddgrug**
GWRTHOD A CHAMAU GORFODI WEDI EU HAWDURDODI I DYNNU YMAITH YR ESTYNIAD HEB AWDURDOD

**431 CAIS AM BENDERFYNIAD PWYLLGOR AR DDAU GAIS YN FFURFIO TESTUN APELIADAU YN ERBYN DIFFYG PENDERFYNIAD ABBEY ROAD GARAGE, ABBEY ROAD, LLANGOLLEN**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn gofyn am benderfyniad gan Aelodau ar ddau gais cynllunio'n ymwneud â safle Abbey Road Garage yn Llangollen.

Mae'r adroddiad yn hysbysu'r Aelodau o hanes y ceisiadau hyn a'r apeliadau yn erbyn diffyg penderfyniad. Mae hefyd yn manylu'r rhesymau dros apelio.

Er mwyn cynorthwyo swyddogion wrth lunio datganiadau apêl, mae'r adroddiad yn gofyn am farn y pwyllgor ar y ceisiadau.

***PENDERFYNWYD:***

*Ar ôl derbyn gohebiaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl, penderfynodd y Pwyllgor, pe byddai wedi bod mewn sefyllfa i benderfynu'r ceisiadau a oedd* yn

*destun yr apeliadau yn erbyn diffyg penderfyniad, byddai wedi rhoi caniatâd cynllunio a chaniatâd ardal gadwraeth.*

**432 EITEMAU GWYBODAETH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd er gwybodaeth i'r Aelodau yn manylu Nodyn Cyngor Technegol 8 a Datganiad Polisi Cynllunio Interim gan y gweinidog ar Ynni Adnewyddadwy, hefyd ymgynghoriad ar TAN 1 (Astudiaethau Argaeledd Tai) a newidiadau i TAN 2 (Cynllunio a Thai Fforddiadwy). Roedd yr adroddiad hefyd yn hysbysu'r Aelodau o ddyddiadau'r Cymorthfeydd Cynllunio nesaf i'w cynnal yn Y Rhyl, Prestatyn, Rhuthun, Corwen, Llangollen a Dinbych.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**433 RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU TRIN DAN HAWLIAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn manylu ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1af Awst 2005 a 31ain Awst 2005.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm.

*********